OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 1492 (Cy.135)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Llaeth Yfed (Cymru) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *25 Mai 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *27 Mai 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *18 Mehefin 2010* |

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**) ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i'r cyfeiriadau at ddarpariaethau Erthygl 114(2) o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007, ac Atodiad XIII i'r Rheoliad hwnnw, sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth o farchnadoedd amaethyddol ac sy'n ymdrin â darpariaethau penodol ar gyfer cynhyrchion amaethyddol penodedig (Rheoliad CMO Sengl)(**2**) gael eu dehongli fel cyfeiriadau at y darpariaethau hynny fel y'u diwygir o dro i dro.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**), cafwyd ymgynghori agored a thryloyw â'r cyhoedd yn ystod y cyfnod yr oedd y Rheoliadau a ganlyn yn cael eu paratoi a'u gwerthuso.

Yn unol ag adran 48(4A) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**4**), mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**5**) ac adrannau 6(4), 16(1), 17(2), 26(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**6**) ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru(**7**).

(**1**) 1972 p.68.
(**2**) OJ Rhif L 299, 16.11.2007, t. 1 y mae iddo ddiwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**3**) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 596/2009 OJ Rhif L188, 18.7.2009 t.14.
(**4**) 1990 p.16. Mewnosodwyd adran 48(4A) gan adran 40(1) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28) ("Deddf 1999"), ac Atodlen 5, paragraff 21, iddi.
(**5**) Mewnosodwyd paragraff 1A gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51).
(**6**) Diwygiwyd adran 6(4) gan adran 31 o Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994, p. 40, ac Atodlen 9, paragraff 6 iddi ac adran 40(1) o Ddeddf 1999 ac Atodlen 5, paragraff 10(1) a (3) iddi; diwygiwyd adran 16(1) gan adran 40(1) o Ddeddf 1999 ac Atodlen 5, paragraffau 7 ac 8 iddi; diwygiwyd adran 17(2) gan adran 40(1) o Ddeddf 1999 ac Atodlen 5, paragraffau 7, 8 a 12 iddi; diwygiwyd adran 48(1) gan adran 40(1) o Ddeddf 1999 ac Atodlen 5, paragraffau 7 ac 8 iddi.
(**7**) O ran Cymru, cafodd y swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers" eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 fel y'i darllenir ynghyd ag adran 40(3) o Ddeddf 1999, a'u trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, p. 32.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llaeth Yfed (Cymru) 2010. Maent yn dod i rym ar 18 Mehefin 2010 ac yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "yr Atodiad" ("*the Annex*") yw Atodiad XIII i Reoliad y Cyngor;

ystyr "awdurdod bwyd" ("*food authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr "Erthygl 114(2)" ("*Article 114(2)*") yw Erthygl 114(2) o Reoliad y Cyngor;

mae "gwerthu" ("*sell*") yn cynnwys meddu ar rywbeth i'w werthu, a chynnig rhywbeth, ei roi ar ddangos neu ei hysbysebu i'w werthu;

mae i "llaeth" yr ystyr a roddir i "*milk*" ym mhwynt I(a) o'r Atodiad;

mae i "llaeth yfed" yr ystyr a roddir i "*drinking milk*" ym mhwynt I(b) o'r Atodiad; ac

ystyr "Rheoliad y Cyngor" ("*the Council Regulation*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth o farchnadoedd amaethyddol ac sy'n ymdrin â darpariaethau penodol ar gyfer cynhyrchion amaethyddol penodedig (Rheoliad CMO Sengl).

(2) Mae i ymadroddion eraill, sy'n cael eu defnyddio yn y Rheoliadau hyn ond sydd heb eu diffinio ynddynt, ac y mae'r ymadroddion Saesneg sy'n cyfateb iddynt yn ymddangos yn Rheoliad y Cyngor, yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag sydd i'r ymadroddion Saesneg hynny yn Rheoliad y Cyngor.

(3) Mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at Erthygl 114(2) a'r Atodiad yn gyfeiriadau at Erthygl 114(2) a'r Atodiad fel y'u diwygir o dro i dro.

**Gwerthu neu ddanfon llaeth a defnyddio disgrifiad gwerthu**

**3.** Ni chaiff neb—

(a) gwerthu neu ddanfon llaeth; na

(b) defnyddio neu esgeuluso defnyddio disgrifiad gwerthu ar gyfer unrhyw gynnyrch,

yn groes i Erthygl 114(2) neu bwynt II(1) a (2) o'r Atodiad fel y'u darllenir ynghyd â phwynt III o'r Atodiad.

**Mewnforio cynhyrchion o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd i'w gwerthu fel llaeth yfed**

**4.** Ni chaiff neb fewnforio i Gymru o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd unrhyw gynnyrch i'w werthu fel llaeth yfed yn groes i bwynt IV o'r Atodiad.

**Gorfodi**

**5.**—(1) Rhaid i bob awdurdod bwyd orfodi darpariaethau'r Rheoliadau hyn o fewn ei ardal.

(2) Rhaid i bob awdurdod bwyd roi i unrhyw awdurdod bwyd arall ym Mhrydain Fawr unrhyw gymorth a gwybodaeth y mae angen rhesymol eu cael ar yr awdurdod bwyd arall hwnnw er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Rheoliadau hyn neu ddarpariaeth gyfatebol.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr "darpariaeth gyfatebol" ("*equivalent provision*") yw darpariaeth mewn Rheoliadau a wnaed yn Lloegr neu'r Alban er mwyn gweithredu Erthygl 114(2) neu'r Atodiad.

**Tramgwyddau a chosbau**

**6.** Bydd unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio â rheoliad 3 neu 4—

(a) yn euog o dramgwydd; a

(b) yn atebol ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol.

**Cymhwyso darpariaethau Deddf 1990**

**7.**—(1) Mae darpariaethau Deddf 1990 a nodwyd ym mharagraff (3) yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn, rhaid i unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at Ddeddf 1990 neu at Ran o Ddeddf 1990 gael ei ddehongli fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn.

(3) Dyma'r darpariaethau—

(a) adran 2 (ystyr estynedig "sale" etc.)(**8**);

(b) adran 3 (rhagdybiaethau bod bwyd wedi ei fwriadu i bobl ei fwyta);

(c) adran 20 (tramgwyddau oherwydd bai person arall);

(ch) adran 21 (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy)(**9**);

(d) is-adran (8) o adran 30 (dadansoddi etc. samplau);

(dd) adran 33 (rhwystro etc. swyddogion);

(e) is-adrannau (1) i (3) o adran 35 (cosbi tramgwyddau) i'r graddau y mae'r is-adrannau'n ymwneud â thramgwyddau o dan is-adrannau (1) a (2) o adran 33(**10**);

(f) adran 36 (tramgwyddau gan gyrff corfforaethol); ac

(ff) adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll).

**Dirymu**

**8.** Mae Rheoliadau Llaeth Yfed 1998(**11**) wedi eu dirymu o ran Cymru.

**Diwygiadau**

**9.**—(1) Mae rheoliad 2(1) o Reoliadau Labelu Bwyd 1996(**12**) wedi ei ddiwygio'n unol â pharagraffau (2) i (4).

(2) Ar ôl y diffiniad o "confectionery product", mewnosoder—

""Council Regulation 1234/2007" means Council Regulation (EC) No 1234/2007 establishing a common organisation of agricultural markets and on specific provisions for certain agricultural products (Single CMO Regulation);".

(3) Yn y diffiniad o "raw milk", yn lle'r geiriau "Article 3(1) of Council Regulation (EC) No 2597/97 laying down additional rules on the common organisation of the market in milk and milk products for drinking milk", rhodder "point III(1) of Annex XIII to Council Regulation 1234/2007".

(4) Yn y diffiniadau o "semi-skimmed milk", "skimmed milk" a "whole milk", yn lle'r geiriau "Article 3(1) of Council Regulation (EC) No 2597/97", rhodder "point III(1) of Annex XIII to Council Regulation 1234/2007".

(**8**) Mae adran 2 wedi ei diwygio gan adran 40(1) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999, ac Atodlen 5, paragraffau 7 ac 8 iddi (p. 28).
(**9**) Diwygiwyd adran 21 gan O.S. 2004/3279.
(**10**) Diwygiwyd adran 35(3) gan O.S. 2004/3279.
(**11**) O.S. 1998/2424.
(**12**) O.S. 1996/1499.

*Elin Jones*
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

25 Mai 2010

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 18 Mehefin 2010, yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi Erthygl 114(2) o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007, ac Atodiad XIII ("yr Atodiad") i'r Rheoliad hwnnw sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth o farchnadoedd amaethyddol ac sy'n ymdrin â darpariaethau penodol ar gyfer cynhyrchion amaethyddol penodedig (Rheoliad CMO Sengl) (OJ Rhif L 299, 16.11.2007, t 1). Mae Rheoliadau Llaeth Yfed 1998 (O.S. 1998/2424) wedi eu dirymu gan reoliad 8.

Mae gwerthu neu ddanfon llaeth a defnyddio neu beidio â defnyddio disgrifiad gwerthu ar gyfer unrhyw gynnyrch yn groes i'r Atodiad wedi eu gwahardd. (Rheoliad 3)

Mae mewnforio unrhyw gynnyrch o'r tu allan i'r Gymuned yn groes i bwynt IV o'r Atodiad wedi ei wahardd. (Rheoliad 4)

Mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi ac mae rheoliad 6 yn cynnwys darpariaeth am dramgwyddau a chosbau.

Mae darpariaethau penodedig yn Neddf Diogelwch Bwyd 1990 wedi eu hymgorffori yn y Rheoliadau. (Rheoliad 7)

Mae rheoliad 9 yn cynnwys diwygiadau i Reoliadau Labelu Bwyd 1996 (O.S. 1996/1499).

Nid oes asesiad effaith wedi ei lunio ar gyfer yr offeryn hwn, gan na ragwelir unrhyw effaith ar y sector preifat na'r sector gwirfoddol.